| | | |
|---|---|---|
| **CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU** | | **NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES** |
| **OFFERYNNAU**<br><br>**STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y**<br><br>**I N S T R U M E N T S** |
| **2001 Rhif (Cy. )** | | **2001 No. (W. )** |
| PYSGODFEYDD MôR, CYMRU | | SEA FISHERIES, WALES |
| **cadwraeth pysgod môr** | | **CONSERVATION OF SEA FISH** |
| **Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) (Diddymu) (Cymru) 2001** | | **The Crab Claws (Prohibition of Landing) (Revocation) (Wales)**<br><br>**Order 2001** |
| | | |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)* | | **EXPLANATORY NOTE**<br><br>*(This note does not form part of the Order)* |
| | | |

| | |
|---|---|
| Mae’r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) 1986 ("Gorchymyn 1986"), sydd eisoes wedi’i ddiddymu mewn perthynas â’r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon (erthygl 2). | This Order revokes the Crab Claws (Prohibition of Landing) Order 1986 ("the 1986 Order"), which has already been revoked in relation to Scotland, England and Northern Ireland (article 2). |
| Gwaharddodd Gorchymyn 1986 lanio crafangau crancod yn y Deyrnas Unedig os ydynt wedi’u datod oddi ar grancod bwytadwy (*Cancer pagurus*) sydd wedi’u dal o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain. Gwnaed darpariaeth gysylltiedig ynddo hefyd ar gyfer gorfodi. | The 1986 Order prohibited the landing of crab claws in the United Kingdom if they have been detached from edible crabs (*Cancer pagurus*) caught within British fishery limits. It also made related provision for enforcement. |
| Erbyn hyn, gellir dod o hyd i ddarpariaethau ynghylch cadw crancod bwytadwy a chrafangau sydd wedi’u datod ar fwrdd llongau a’u glanio yn Erthygl 18.4 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 (OJ Rhif L125, 27.04.98, t.1) ynghylch cadwraeth adnoddau pysgodfeydd drwy gyfrwng mesurau technegol ar gyfer diogelu organeddau morol ifanc. | Provisions relating to the retention on board and the landing of edible crabs and detached claws can now be found in Article 18.4 of Council Regulation (EC) No. 850/98 (OJ No. L125, 27.04.98, p.1) for the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juveniles of marine organisms. |
| Mae darpariaethau ar gyfer gorfodi’r cyfyngiadau a’r rhwymedigaethau a geir yn y Rheoliad hwnnw wedi’u gwneud yng Ngorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) (Cymru) 2000 (2000 Rhif 2230 (Cy. 148)) a ddaeth i rym ar 11 Medi 2000. | Provisions for the enforcement of restrictions and obligations contained in that Regulation have been made in the Sea Fishing (Enforcement of Community Conservation Measures) (Wales) Order 2000 (2000 No.2230 (W.148)) which came into force on 11th September 2000. |

| | | |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU**<br><br>**STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y**<br><br>**I N S T R U M E N T S** |
| **2001 Rhif (Cy. )** | | **2001 No. (W. )** |
| **PYSGODFEYDD MôR, CYMRU** | | **SEA FISHERIES, WALES** |
| **cadwraeth pysgod môr** | | **CONSERVATION OF SEA FISH** |
| **Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) (Diddymu) (Cymru) 2001** | | **The Crab Claws (Prohibition of Landing) (Revocation) (Wales)**<br><br>**Order 2001** |
| *Wedi'i wneud 2001*<br><br>*Yn dod i rym 1 Mehefin 2001* | | *Made 2001*<br><br>*Coming into force 1st June 2001* |
| Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 6(1) ac 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967**(a)**, a phob per arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol: | | The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on it by sections 6(1) and 20(1) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967**(a)**, and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Order: |
| **Enwi a chychwyn** | | **Name and commencement** |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) (Diddymu) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 1 Mehefin 2001. | | **1.** This Order is named the Crab Claws (Prohibition of Landing) (Revocation) (Wales) Order 2001 and shall come into force on 1st June 2001. |
| **Diddymu** | | **Revocation** |
| **2.** Mae Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) 1986**(b)** drwy hyn wedi'i ddiddymu mewn perthynas â Chymru. | | **2.** The Crab Claws (Prohibition of Landing) Order 1986**(b)** is hereby revoked in relation to Wales. |
| | | |
| Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(c)**. | | Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(c)**. |
| | | |
| [ ] 2001 | | [ ] 2001 |
| Llywydd<br><br>y Cynulliad Cenedlaethol | | The Presiding Officer of the National Assembly |

**[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]**

(a) 1967 p.84. Amnewidiwyd adran 1 gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29) adran 19(1), a'i diwygio gan baragraff 38(a) o Atodlen 13 i Ddeddf Llongau Masnachol 1995 (p.21) a pharagraff 43(2) a (3) o Atodlen 2 i Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820).

Diwygiwyd adran 6, o ran ei heffaith, gan adran 33(1) o Ddeddf 1981 a'i diwygio gan O. S. 1999/1820, Atodlen 2, paragraff 43(6).

Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) cafodd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 6(1) o Ddeddf 1967 eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru (a ddiffinnir yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) fel ei bod yn cynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea"); mewn perthynas â dyfroedd y tu hwnt i Gymru mae'r swyddogaethau hyn yn dal yn arferadwy gan y Gweinidogion.

Gweler adran 22(2) o Ddeddf 1967 i gael diffiniadau o "the Ministers" at ddibenion adrannau 1 a 15(3). Diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19 (2)(d) a 45(b) ac (c) a chan O.S. 1999/1820, paragraff 43(12) o Atodlen 2.

(a) 1967 c.84. Section 1 was substituted by the Fisheries Act 1981 (c.29) section 19(1), and was amended by paragraph 38(a) of Schedule 13 to the Merchant Shipping Act 1995 (c.21) and paragraph 43(2) and (3) of Schedule 2 to the Scotland Act 1998 (Consequential Modifications) (No.2) Order 1999 (S.I. 1999/1820).

Section 6 was modified in its effect by section 33(1) of the 1981 Act and amended by S.I. 1999/1820, Schedule 2, paragraph 43(6).

By virtue of article 2(a) of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions exercisable under section 6(1) of the 1967 Act were transferred to the National Assembly in so far as exercisable in relation to Wales (defined in section 155(1) of the Government of Wales Act 1998 (c.38) as including "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea"); in respect of waters beyond Wales these functions remain exercisable by the Ministers.

See section 22(2) of the 1967 Act for definitions of "the Ministers" for the purposes of sections 1 and 15(3). Section 22(2) was amended by the Fisheries Act 1981, sections 19(2)(d) and 45(b) and (c) and by S.I. 1999/1820, paragraph 43(12) of Schedule 2.

(b) O.S. 1986/496. Cafodd y Gorchymyn ei ddiddymu gan O.S. 2000/1235 ac eithrio i'r graddau yr oedd yn rhan o Gyfraith yr Alban neu yn effeithiol mewn perthynas â Chymru. Cafodd ei ddiddymu mewn perthynas â'r Alban gan O.S.A. 2000/81.

(c) 1998 p.38.

(b) S.I. 1986/496. The Order was revoked by S.I. 2000/1235 except in so far as it formed part of the Law of Scotland or had effect in relation to Wales. It was revoked in relation to Scotland by S.S.I. 2000/81.

(c) 1998 c.38.